**Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd**
**Dydd Iau 14 Tachwedd 2019 10:30 – 13:30**
**Maes Y Dderwen, Grosvenor Road, Wrecsam, LL11 1BX**

**Cofnodion y Cyfarfod**

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Jon Sparkes | Prif Weithredwr, Crisis (Cadeirydd) |
| Katie Dalton | Cyfarwyddwr, Cymorth Cymru |
| Peter Mackie | Uwch ddarlithydd, Prifysgol Caerdydd |
| Naomi Alleyne | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, CLILC |
| Clare Budden | Prif Swyddog Gweithredol, Cymdeithas Tai Clwyd Alyn |
| John Puzey | Prif Weithredwr, Shelter Cymru |
| Glynne Roberts | Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Gaynor Toft | Rheolwr Corfforaethol, Tai, Cyngor Sir Ceredigion |
| Lindsay Cordery-Bruce | Prif Weithredwr, The Wallich |
| Clarissa Corbisiero | Cyfarwyddwr Polisi, Cartrefi Cymunedol Cymru |
| Tamsin Stirling | Arbenigwraig Lawrydd ar Dai |
| Nick Morris | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu, Crisis |
| Emma Williams | Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| Sarah Rhodes | Pennaeth Digartrefedd, Llywodraeth Cymru |
| Mark Price | Arweinydd Prosiect ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp, Llywodraeth Cymru |

Ymddiheuriadau:

| | |
|---|---|
| Frances Beecher | Prif Weithredwr, Llamau |
| Bonnie Navarra | Arweinydd Gwneud Newidiadau, Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol |

Croesawodd JS bawb i chweched cyfarfod y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd a chofnodwyd yr ymddiheuriadau.

Y diweddaraf ynghylch y Cyfarfodydd Bord Gron ag Awdurdodau Lleol

Rhoddodd EW y newyddion diweddaraf i'r grŵp ynghylch y pedwar cyfarfod bord gron a gynhaliwyd ag awdurdodau lleol, ac a gafodd dderbyniad cadarnhaol. Mae cynrychiolwyr o'r heddlu a maes iechyd wedi bod yn bresennol ym mhob cyfarfod, yn ogystal ag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau statudol ac anstatudol. Mae camau gweithredu'n deillio o bob un o'r cyfarfodydd, gan gynnwys ymrwymo i

egwyddorion allgymorth grymusol Cymorth Cymru, hyfforddiant ar gyfer allgymorth grymusol (mae dyddiadau'n cael eu pennu ar gyfer pob ardal ar hyn o bryd) a llenwi swyddi'r cydgysylltydd achosion cysgu allan a rheolwr achosion cysgu allan. Cafwyd cytundeb yn y pedair ardal o ran darpariaeth gyllidebol wedi'i theilwra i'r unigolyn ar gyfer gweithwyr allgymorth (a hynny ar gael yn yr un modd yn y maes statudol a maes y trydydd sector).

Gweithdai

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfarfod ar ddull Gweithdy. Rhannwyd y Grŵp Gweithredu'n grwpiau trafod llai i fynd i'r afael â'r cwestiwn cyntaf y gofynnwyd i'r Grŵp ei drafod: *pa fframwaith o bolisïau, dulliau gweithredu a chynlluniau sydd ei angen i ddod â digartrefedd i ben yng Nghymru?* Diben y gweithdai, fel y'i disgrifir isod, oedd meddwl am yr heriau drwy edrych ar y dystiolaeth ar lefel genedlaethol strategol ac ystyried beth sydd ei angen i wneud newid yn bosibl.

Gweithdai ar Gamau Cyffredinol i Atal Digartrefedd

Rhannodd y grŵp yn dri is-grŵp. Treuliodd pob grŵp yr un faint o amser yn ystyried: effaith tlodi ar ddigartrefedd; pa mor fforddiadwy a hawdd ei gael yw llety; a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Pwyntiau a gododd o'r gweithdy ar ba mor fforddiadwy a hawdd ei gael yw llety:
- Mae gofyn cael dull gweithredu sy'n seiliedig ar angen er mwyn sicrhau bod pawb yn cael llety sy'n saff a diogel ar sail egwyddor "y cartref cywir i'r person cywir".
- Materion yn ymwneud â chyflenwad y stoc tai a'i fforddiadwyedd, a yw'r stoc yn y mannau cywir (ee i bobl sy'n dymuno bod mewn ardaloedd â chysylltiadau lleol), a yw o'r math cywir (ee a oes digon o gartrefi â thair ystafell wely i deuluoedd) ac a yw'r stoc o ansawdd priodol.
- Materion cynllunio o ran ystyried tai fforddiadwy sy'n llywio cynlluniau datblygu lleol (hynny yw, mae angen i gynlluniau datblygu fod yn fwy uchelgeisiol wrth ystyried materion yn ymwneud â'r cyflenwad a'r galw).
- Mae angen defnyddio'r Adolygiad o Dai Fforddiadwy i'w gwneud yn bosibl adeiladu tai cymdeithasol yn gyflym ac ar raddfa helaeth.
- Cyfraddau Cymdeithasau Tai Lleol – fforddiadwyedd ac ymyriadau'n ymwneud â rhent.

Pwyntiau a gododd o'r gweithdy ar dlodi:
- Dylid ystyried cael rhywun (ee gallai fod yn gomisiynydd annibynnol) i weithio ar draws y Llywodraeth a dwyn sefydliadau i gyfrif ynghylch atal digartrefedd.
- Mae angen gwneud rhagor o waith dwys ar gael tystiolaeth o dlodi plant.

- Fforddiadwyedd llety a phobl yn cael eu llusgo i drobwll o Ddigartrefedd a'u cadw yno.
- Canfyddiadau o dlodi ei hun a newidiadau mewn ymddygiad.
- Mae angen gwell atebion o ran cyflogadwyedd a chyflogaeth (ee cydnabod gwerth gwaith) gan gynnwys tlodi mewn gwaith a helpu ardaloedd i ffynnu.
- Tâl cyfartal i'r ddau rywedd, hynny yw, mae menyw sengl mewn gwaeth perygl o ddigartrefedd.
- Addysg ddigonol – yn fwy tebygol o gael swydd ddiogel sy'n rhoi boddhad. Edrych ar sut y mae addysg yn ymdrin â digartrefedd ee sgiliau bywyd, cyllidebu.
- Adolygu'r gwariant presennol a'r hyn sy'n gweithio'n dda mewn rhai ardaloedd ond nad yw ar gael ym mhobman.
- Deddfu i ddod â thlodi plant i ben (fel yn yr Alban).

Pwyntiau a gododd o'r gweithdy ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod:

- Mae pobl wedi cael eu hyfforddi i ymdrin â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, ond beth mae hyn yn ei olygu yn nhermau polisïau ac arferion a'r ymateb sy'n ofynnol.
- Mae angen datblygu sgiliau pob darparwr gwasanaethau rheng-flaen a nodi'r unigolion sy'n bwysig ym mywydau plant a gwella'u sgiliau hwythau hefyd.
- Pwysigrwydd gweithredu ar draws y sefydliad cyfan, hynny yw newid polisïau ac arferion yn sgil hyfforddiant.
- Byddai dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau plant yn dweud y dylai fod gan y plentyn hawl i fynnu bod rhywun yn sylwi arno pan fo'n dioddef effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a bod rhywbeth yn cael ei wneud ynghylch hynny.
- "Dull gweithredu Dim Drysau Anghywir" ac adnabod pryd mae'n briodol ymyrryd.
- Defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolion/ dull cyffredinol wrth ystyried diogelwch plant a chael sgwrs am "beth sy'n bwysig" gan dynnu digartrefedd a thai i mewn i'r drafodaeth. Newid diwylliant.
- A oes digon o wasanaethau cymorth am ddim/hawdd cael mynediad atynt ar gael i atal profiadau niweidiol yn ystod plentyndod rhag digwydd o gwbl.

Camau nesaf - bydd golwg rhagarweiniol yn cael ei fwrw dros y pwyntiau trafod o'r sesiynau Gweithdy "cwestiwn cyntaf" a bydd yr wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhannu yn y cyfarfod nesaf.

<u>Gweithdai ar Atal Argyfyngau a Gwaith Atal Digartrefedd wedi'i Dargedu</u>
Rhannodd y Grŵp yn ddau is-grŵp i feddwl am waith atal digartrefedd wedi'i dargedu ac atal argyfyngau. Roeddent yn ystyried y grwpiau perthnasol i'w targedu, a hefyd y risgiau, sbardunau ac ymyriadau priodol. Cydnabuwyd fod atebion "parod" yn bodoli eisoes i fynd i'r afael â digartrefedd, yn cynnwys: ymyriadau cyfnod allweddol, dulliau polisi "dim drws anghywir", mabwysiadu dulliau sydd wedi'u teilwra i'r unigolyn / wedi'u harwain gan feddylfryd Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol (PIE),

dim troi allan i ddigartrefedd, a dull gweithredu partneriaeth / cynhadledd achos i gynnal tenantiaethau neu ddarganfod opsiynau eraill.

Pwyntiau trafod – ai dim troi allan yw'r dull cywir:

- Mae hyn hefyd yn cynnwys peidio â rhyddhau o'r ysbyty, carchardai etc i ddigartrefedd. Nid yw'n broblem tai yn unig.
- Mae angen dull gweithredu amlasiantaethol sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn ac sy'n canolbwyntio arno (ee gallai gynnwys darpariaeth 24 awr ar gyfer nifer fach o bobl) er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu ar waith yn barhaus i leihau'r risg o droi unigolyn allan. Mae angen system fflagio cynnar ar gyfer ymyriadau gan gydgysylltydd achosion.
- Dylai bod disgwyliad neu ddyletswydd fod cydweithwyr o'r heddlu a maes iechyd yn cymryd rhan weithredol yn yr ateb amlasiantaethol.
- Problemau ynghylch sut rydyn ni'n geirio'r cwestiwn mewn ffordd sy'n berthnasol i ddiogelu er mwyn sicrhau bod pob sefydliad wedi ymroi'n llwyr i'r dull a bod ganddynt ddyletswydd i weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw pobl yn cael eu troi allan i ddigartrefedd.
- Gall diffyg llety addas arwain at droi unigolyn allan, ee nid yw unigolyn yn byw yn yr amgylchedd cywir, felly dylai gael ei symud cyn ystyried ei droi allan.
- Sut i ddarparu amodau gwaith gwell a mwy sefydlog fel bod pobl yn teimlo'n ddiogel ac yn aros yn eu swyddi.
- A ellir ymestyn y dull hwn i'r sector rhentu preifat, hynny yw darparu gwell cymorth a chefnogaeth i denantiaid gadw eu tenantiaeth a pha abwyd y gallwn ei gynnig i gymell landlordiaid.
- Pa gymorth a chyngor sydd ar gael ynghylch sefyllfaoedd lle bydd cydberthnasau yn chwalu a galluogi pobl i gael mynediad at wasanaethau heb orfod talu amdanynt yn breifat.

Pwyntiau trafod – a yw ein rhestr o grwpiau targed yn gywir ac a oes ymyriadau eraill y dylid eu hystyried:

- Mae angen sicrhau bod pob ymyriad yn cael ei ystyried yn deg a'i rancio'n unol â hynny.
- Dylid ystyried darpariaeth iechyd meddwl ac iechyd corfforol ar wahân oherwydd bydd eu hanghenion yn wahanol.
- Mae Ymyriadau Cyfnod Allweddol yn allweddol.
- Rhaid gwella dulliau gweithredu sy'n benodol i rywedd (ee ar gyfer y gymuned LGBTQ+).
- Defnyddio dulliau dadansoddi rhagfynegol (deall y ffactorau risg a sut i gynnig cymorth yn gynnar i bobl sydd yn y perygl mwyaf.
- Defnyddio gwybodaeth a data'n well – pwy sydd am wneud y gwaith dadansoddi hwnnw a pha mor ymarferol yw hynny?
- Cysylltu â'r broses rhyddhau o'r carchar a sicrhau nad oes neb yn cael eu rhyddhau i ddigartrefedd.

- Mae angen inni edrych ar beth sydd ar gael yn barod ac yna rhaid cynnwys ffactorau tai a digartrefedd ar draws pob ardal.
- Mae angen cyfeirio at y rhaglen adsefydlu ffoaduriaid.
- Mae angen ystyried adnoddau a sut y mae llwybrau'n cael eu rhoi ar waith yn ymarferol, a'r rhwystrau sy'n atal y system rhag gweithio'n effeithlon (hynny yw, rhag bod yn llwybr y gellir ymddiried ynddo).
- Materion mewn perthynas â chymhwysedd carcharorion ar gyfer gwasanaethau a budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU - problem Llywodraeth y DU mewn cysylltiad â chyfiawnder troseddol datganoledig.
- Dylai'r Weinyddiaeth Amddiffyn fod yn gweithio â'i phersonél cyn iddynt gael eu rhyddhau o'r lluoedd arfog ynghylch y problemau y byddant yn eu hwynebu o bosibl o ran anghenion gofal a chefnogaeth a chael rhywle i fyw.

Bydd yr adborth o'r sesiynau hyn yn helpu i lunio fframwaith ar gyfer y mannau lle mae'r bylchau, a'r hyn y gellir ei wneud i gau'r bylchau hynny, i'w fwydo'n ôl i'r cyfarfod nesaf.